
GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o’r Effaith ar Iechyd





Liz Green, Cyfarwyddwr Rhaglen, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nerys Edmonds, Prif Swyddog Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru


Gorffennaf 2023

**Cyfeirnod:**

Edmonds, N., and Green, L. (2023) Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. https://phwwhocc.co.uk/resources/newid-hinsawdd-yng-nghymru-asesiad-or-effaith-ar-iechyd/?lang=cy

Cyfranwyr:

Sumina Azam, Mark A Bellis, Katie Creswell, Christine Clar, Morganna Davies, Mark Drane, Michael Fletcher, Karen Hughes, Kristian James, Natasha Judd, Sue Toner, Phil Wheater, Sara Wood.

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/
cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Crynodeb gweithredol

**Bydd newid hinsawdd yn cael effaith hirdymor fawr ar iechyd, llesiant a thegwch. Mae'r effeithiau hyn yn amlochrog, nid ydynt yn sefydlog a byddant yn effeithio ar boblogaeth Cymru yn y dyfodol agos ac yn y tymor hir. Mae newid hinsawdd yn her fawr ar draws y byd ac mae wedi cael ei gydnabod fel rhwystr i lesiant, cymdeithas, yr amgylchedd a datblygiad economaidd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.**



# Gosod y sefyllfa

Mae Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn cydnabod mai newid hinsawdd yw un o fygythiadau iechyd y cyhoedd mwyaf arwyddocaol y ganrif, gan beryglu iechyd corfforol, a iechyd a llesiant meddyliol. Mae'n bygwth pob rhan o fywyd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni a chynnal iechyd da. O ganlyniad mae ICC wedi gwneud mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd yn flaenoriaeth yn ei Strategaeth Hirdymor o 2023 – 2035 ac mae wedi ymrwymo i weithio gydag asiantaethau partner i ymateb a hwyluso gweithredu ar addasu a lliniaru hinsawdd (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023).




# Cefndir

## Dechreuwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn 2019.

Arweiniwyd y gwaith gan yr Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cafodd Grŵp Cynghori Strategol ei gynnull yn 2019 yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), timau iechyd cyhoeddus lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bu oedi gyda gwaith ar yr HIA oherwydd yr ymateb i COVID 19.



# Nodau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar Newid Hinsawdd yng Nghymru

- Nodi effeithiau iechyd a llesiant posibl newid hinsawdd yng Nghymru - boed yn gorfforol, yn feddyliol neu'n gymdeithasol
- Nodi sut bydd newid hinsawdd yn effeithio ar fywydau pobl lle maent yn byw, yn gweithio ac yn chwarae, beth mae'n ei olygu?
- Darparu tystiolaeth ar gyfer integreiddio iechyd i mewn i gynllunio addasiadau a llunio polisïau
- Cefnogi sefydliadau a phenderfyniadau yng Nghymru - llywio cynlluniau, polisïau a datblygu rhaglenni
- Llywio rhaglen waith Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff strategol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol

## Cwmpas

- Cwmpas - Cymru yn unig; cynhwysfawr/cymhleth; cyfranogol; yn asesu effaith bosibl a gwirioneddol.
- Nodwyd effeithiau negyddol (-) a chadarnhaol/cyfleoedd (+)
- Canolbwyntio ar yr effeithiau ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd, y grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt ac anghydraddoldebau
- Seiliedig ar dystiolaeth: Adolygiad o lenyddiaeth; cyfweliadau, 2 weithdy i randdeiliaid; astudiaethau achos

## Proses HIA

1. Sgrinio
2. Cwmpasu
3. Arfarnu tri math o dystiolaeth: Poblogaeth, cyhoeddedig, ansoddol
4. Adroddiad ac argymhellion
5. Adolygu a myfyrio gan gynnwys monitro a gwerthuso

# Sylfaen dystiolaeth

- Adolygiad o lenyddiaeth systematig wedi'i arwain gan brotocol manwl a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor
- Adolygiad llenyddiaeth wedi'i dargedu wedi'i ddiweddaru yn 2021 - 2022
- Gweithdai rhanddeiliaid cyfranogol x 2
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol x 19
- Proffil iechyd y boblogaeth

Cafodd y dystiolaeth ei thriongli, ei syntheseiddio a'i dadansoddi a chafodd effeithiau eu nodi a'u nodweddu.

# Disgrifyddion a ddefnyddir i nodweddu effeithiau

| Math o effaith | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhaol / cyfle**<br>Effeithiau yr ystyrir eu bod yn gwella statws iechyd neu'n cynnig cyfle i wneud hynny | | **Negyddol**<br>Effeithiau yr ystyrir eu bod yn lleihau statws iechyd |
| **Tebygolrwydd yr effaith** | | |
| Cadarnhawyd | Tystiolaeth uniongyrchol gref ee o ystod eang o ffynonellau bod effaith eisoes wedi digwydd neu'n mynd i ddigwydd | Cadarnhawyd |
| Tebygol | Mwy tebygol o ddigwydd na pheidio. Tystiolaeth uniongyrchol ond o ffynonellau cyfyngedig | Tebygol |
| Posibl | Gallai ddigwydd neu beidio. Credadwy, ond gyda thystiolaeth gyfyngedig i gefnogi | Posibl |
| **Dwysedd / difrifoldeb yr effaith** | | |
| Mawr | Arwyddocaol o ran dwyster, ansawdd neu helaethder. Arwyddocaol neu'n ddigon pwysig i fod yn deilwng o sylw, yn nodedig | Mawr |
| Cymedrol | Cyfartalog o ran dwysedd, ansawdd neu faint | Cymedrol |
| Bach | Bach o ran swm neu faint, dibwys | Bach |
| **Hyd yr effaith** | | |
| B = Tymor byr | Gwelir yr effaith mewn 0 – 3 blynedd | |
| C = Tymor canolig | Gwelir yr effaith mewn 3 – 10 mlynedd | |
| H = Tymor hir | Gwelir yr effaith mewn >10 mlynedd | |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Negeseuon allweddol a chrynodeb

# Mae ein hiechyd a'n llesiant yn dibynnu ar iechyd y blaned a'i hecosystemau

- Mae mynd i’r afael â’r newid hinsawdd drwy leihau allyriadau â chyd-fuddiannau mawr i iechyd
- Mae newid hinsawdd yn debygol o gael effaith fawr ar iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru, gan gynnwys ansawdd a mynediad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym eisoes yn gweld yr effeithiau hyn.
- Mae rhai grwpiau poblogaeth yn fwy agored i niwed a / neu'n agored i effeithiau
- Mae angen mwy o weithredu ar frys ledled Cymru i addasu’r amgylcheddau y mae pobl yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn dysgu ynddynt i ddiogelu iechyd a llesiant yn wyneb newid hinsawdd.

- Mae angen i weithredu ar addasu fynd y tu hwnt i ymatebion i gyfnodau unigol o dywydd eithafol - mae angen atebion ataliol hirdymor sy'n addasu polisi, tai, yr amgylchedd byw ac ymddygiad.
- Bydd polisi addasu a phenderfyniadau mewn sectorau eraill yn effeithio ar ganlyniadau iechyd. Mae angen i iechyd, llesiant a thegwch fod yn ganlyniadau polisi addasu ar draws sectorau
- Mae angen cryfhau cyfranogiad ac ymglymiad y cyhoedd mewn polisi a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Mae angen mwy o gymorth i adeiladu gwydnwch a helpu cymunedau i baratoi, ymateb ac ymadfer ar ôl llifogydd, erydu arfordirol, ac effeithiau amgylcheddol eraill.

*"The severity of the risks we face must not be underestimated. These risks will not disappear as the world moves to Net Zero; many of them are already locked in. By better understanding and preparing for the coming changes, the UK can prosper, protecting its people, its economy, and its natural environment. A detailed, effective action plan that prepares the UK for climate change is now essential and needed urgently."*

Y Farwnes Brown, Cadeirydd Pwyllgor Addasu CSC (CSC, 2021)

# Crynodeb o'r effeithiau mawr ar benderfynyddion iechyd a llesiant

## Effeithiau negyddol

- Sicrwydd bwyd a maeth
- Llifogydd
- Tymheredd uwch a gwres eithafol
- Ffactorau amgylcheddol megis cyflenwad ac ansawdd dŵr
- Iechyd a llesiant meddyliol
- Mynediad i Iechyd a gofal cymdeithasol
- Seilwaith
- Dadleoli poblogaeth
- Tirlithriadau
- Tanau gwyllt
- Amodau Gwaith
- Amodau economaidd

## Cyfleoedd

- Atebion seiliedig ar natur ac amgylcheddau gwyrdd, glas a naturiol
- Gweithredu a arweinir gan y gymuned, gwydnwch a chyfalaf cymdeithasol
- Gwella bwyta'n iach trwy fabwysiadu diet iach a chynaliadwy
- Datblygu modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd
- Mwy o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus ddi-garbon a theithio llesol
- Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi
- Sgiliau, diwydiannau a swyddi newydd yn cael eu creu yn gysylltiedig ag "economi werdd" / datgarboneiddio, ac "economi gylchol"
- Addysg wedi'i thargedu i rymuso a galluogi pobl i wneud dewisiadau a gweithredu ar newid hinsawdd fel dinasyddion


# Crynodeb: effeithiau ar grwpiau poblogaeth


- Oedolion hŷn
- Babanod, plant a phobl ifanc
- Cymunedau arfordirol
- Ardaloedd perygl llifogydd
- Ardaloedd diwydiannol blaenorol a phresennol
- Ardaloedd gwledig
- Ardaloedd trefol
- Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir a/neu anableddau
- Pobl sydd wedi'u dadleoli
- Grwpiau galwedigaethol
- Pobl sy'n byw ar incwm isel
- Pobl sy'n ddigartref
- Ardaloedd o anfantais lluosog
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig

# Lleoliadau yr effeithiwyd arnynt

- Cartrefi
- Ysgolion a sefydliadau addysgol
- Gweithleoedd
- Ysbytai a chartrefi gofal
- Cymunedau
- Carchardai


Mae natur yn cefnogi ein hiechyd a'n llesiant
Llesiant corfforol
Cadw'n heini mewn mannau gwyrdd a naturiol megis traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad drwy gerdded, rhedeg, beicio, gwaith cadwraeth a chwarae
Canlyniadau iechyd:
Iechyd corfforol cyffredinol
Iechyd cardiofasgwlaidd
Systemau imiwnedd iachach
Pwysau iachach
Llesiant meddyliol
Lleihau gwastraff
Lleihau, atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu
Ailddefnyddio mwy | Cymru yn Ailgylchu
Newid i deithio llesol
Ar gyfer teithiau byr, cerdded neu feicio yn lle mynd yn y car. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn llunio mapiau teithio llesol er mwyn helpu pobl i gynllunio teithiau di-gar
Gofalu am eich hunain ac eraill
Gofalu am natur
Llesiant meddyliol
Mannau heddychlon; cadw'n heini; sylwi ar natur; teimlo'n un â natur; gwerthfawrogi harddwch
Canlyniadau iechyd yn sgil mynediad at fannau gwyrdd a naturiol:
Plant a phobl ifanc:
Llesiant emosiynol gwell
Llai o straen a gorfywiogrwydd
Mwy o wytnwch
Oedolion:
Llai o straen, iselder a gorbryder;
Emosiynau a llesiant meddyliol mwy positif
Lleihau'r defnydd o ynni
Gallwch arbed arian ar eich biliau a lleihau eich ôl-troed carbon yr un pryd
Nyth Cymru
Cefnogi natur a bioamrywiaeth
Gallwch wneud eich gardd yn gyfeillgar i fywyd gwyllt
Natur ar Stepen y Drws – Garddio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt | RSPB
Llesiant cymdeithasol
Mannau i gyfarfod ag eraill; rhannu gweithgareddau a phrofiadau
Canlyniadau iechyd:
Llai o ynysigrwydd cymdeithasol
Teimlad o berthyn
Llesiant meddyliol
Hanfodion bywyd
Aer glân
Dŵr
Bwyd
Gwirfoddoli gydag elusen amgylcheddol leol
Gallech fod yn tyfu bwyd, codi arian, casglu sbwriel neu'n diogelu natur
Hoffwn wirfoddoli - CGGC
Cydweithio
Gallwch ganfod sut y mae cymunedau ledled Cymru yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn helpu natur gyda'i gilydd
Adfywio Cymru
Yn y DU, mae 40% o rywogaethau yn prinhau ac mae 25% o famaliaid mewn perygl o ddiflannu
O: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn sgil y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, I ddod). Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2020) Improving Access to Greenspace: a New Review for 2020. JNCC (2021) Nature Positive 2030.


Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod tywydd eithafol, llifogydd a thywydd poeth yn debygol o ddigwydd yn amlach yng Nghymru
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob rhan o Gymru. Dangosir rhai enghreifftiau o'r effeithiau ar iechyd grwpiau penodol isod
Erbyn y 2050au yng Nghymru:
Rhagwelir y bydd tymheredd blynyddol yn codi 1.2˚C
Disgwylir i lawiad yn ystod yr haf leihau tua 15%
Disgwylir i lawiad yn ystod y gaeaf gynyddu 6%
Rhagwelir y bydd lefel y môr yn codi 22 cm
+ 1.2˚C
– 15%
+ 6%
+ 22cm
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn digwydd yng Nghymru
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom
Plant a phobl ifanc
Tywydd eithafol a llifogydd
• Tarfu ar addysg, chwaraeon yn yr awyr agored a chwarae
• Dadleoli pobl o'u cartrefi ac oddi wrth eu ffrindiau a'u cymuned
• Achosi straen a gorbryder iddyn nhw a'u teuluoedd
Mwy o dywydd poeth
• Mwy o risg o gael salwch sy'n gysylltiedig â gwres
Llesiant meddyliol
• Gorbryder ynghylch sut y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eu dyfodol
Ansawdd aer
• Yn fwy agored i ddioddef yn sgil ansawdd aer gwael a mwg o danau gwyllt
Nodweddion cadarnhaol
• Yn chwarae rhan gadarnhaol yn y broses o leihau allyriadau carbon ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd
• Gall arwain at newidiadau cadarnhaol
• Syniadau ymarferol a chreadigol i helpu cymunedau i adfer ar ôl trychinebau
Pobl ar incwm isel
Tywydd eithafol a llifogydd
• Llai o adnoddau ar gael i baratoi ar gyfer llifogydd neu dywydd eithafol arall, ac i ymateb iddo ac adfer ohono
• Yn llai tebygol o fod ag yswiriant llawn
BILL
Ansawdd aer
• Mae crynodiadau llygredd aer yn uwch mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol
Bwyd a maeth
• Gall costau bwyd gynyddu
Nodweddion cadarnhaol
• Gall leihau costau gwresogi yn yr hirdymor
Oedolion hŷn
Tywydd eithafol a llifogydd
• Tarfu ar fynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth
• Dadleoli pobl o'u cartrefi a'u rhwydweithiau cymorth
• Yn fwy agored i niwed mewn argyfyngau megis llifogydd
• Mwy o drallod meddwl
Mwy o dywydd poeth
• Mwy o risg o salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres
• Gall ynysigrwydd cymdeithasol gynyddu yn ystod tywydd poeth
Ansawdd aer
• Mae oedolion hŷn yn fwy agored i ddioddef yn sgil ansawdd aer gwael a mwg o danau gwyllt
Nodweddion cadarnhaol
• Disgwylir i aeafau cynhesach leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â thywydd oer
Pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor
Tywydd eithafol a llifogydd
• Tarfu ar fynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth
• Mwy o drallod meddwl
• Yn fwy agored i niwed mewn argyfyngau megis llifogydd
Mwy o dywydd poeth
• Effeithiau negyddol ar rai cyflyrau megis problemau iechyd meddwl, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, a diabetes
• Gall rhai meddyginiaethau gynyddu'r perygl o ddatblygu salwch sy'n gysylltiedig â gwres
• Ynysigrwydd cymdeithasol
• Tarfu ar gwsg
Ansawdd aer
• Mae'r rhai sydd â chyflyrau anadlol yn fwy agored i ddioddef yn sgil ansawdd aer gwael a mwg o danau gwyllt
• Mae angen i'r broses o gynllunio a pharatoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd gynnwys camau gweithredu ar draws sectorau i hyrwyddo a diogelu iechyd a llesiant grwpiau poblogaeth a lleoedd gwahanol yng Nghymru.
O: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn Sgil y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, I ddod). Kovats, S. a Brisley, R. (2021) Health, Communities and the Built Environment.
Yn: The Third UK Climate Change Risk Assessment Technical Report. Netherwood A. (2021) Third UK Climate Change Risk Assessment Technical Report: Summary for Wales.


Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar fynediad at fwyd iach
Mae deiet iach, maethlon yn hanfodol ar gyfer:
Twf a datblygiad iach ymysg plant
Iechyd a llesiant da yn gorfforol ac yn feddyliol
Atal gordewdra, clefyd cardiofasgwlaidd a chanser
Gall newid y ffordd rydym yn bwyta hybu iechyd a helpu'r blaned:
Bwyta llai o gig a chynnyrch llaeth
Bwyta mwy o ffrwythau, llysiau a chodlysiau
Lleihau gwastraff bwyd
Mae bwyd yn hanfodol i fywyd
Mae ein planed yn hanfodol i gynhyrchu bwyd
Mae bwyta'n iach eisoes yn un o flaenoriaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd:
mae 61% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew
mae 27% o blant 4 i 5 oed dros eu pwysau neu'n ordew
mae 25% o bobl yn bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd
Roedd tlodi a chost bwyd eisoes yn un o'r rhwystrau i ddeiet iach yng Nghymru cyn 2020:
DONATION
Roedd lefel sicrwydd bwyd 10% o gartrefi yn isel neu'n isel iawn ac roedd sicrwydd bwyd 10% arall yn wan
Roedd teuluoedd â phlant o dan 16 oed yn llai tebygol o gael lefel uchel o sicrwydd bwyd
Byddai'n rhaid i deuluoedd incwm isel wario 42% o'u hincwm ar ôl costau tai ar fwyd er mwyn gallu talu costau'r canllawiau bwyta'n iach
42%
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar fynediad at fwyd iach yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd:
Gall tywydd eithafol darfu ar gynhyrchiant a chyflenwad bwyd yn y DU ac yn rhyngwladol, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn prisiau bwyd yn y DU
Gall y risg cynyddol o blâu, rhywogaethau goresgynnol a chlefydau effeithio ar gnydau ac iechyd da byw
Gall ansawdd pridd gwael a llai o ddŵr effeithio ar gnydau
Gall tymheredd dŵr uwch ac asideiddio yn y cefnforoedd effeithio ar nifer y pysgod
CO2
Mae angen cymryd rhagor o gamau er mwyn datblygu systemau bwyd cadarn sy'n diogelu iechyd yng Nghymru mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd
• Mae angen mwy o ymchwil a gwell data er mwyn gallu cynllunio ar gyfer y risgiau'n gysylltiedig â'r hinsawdd i systemau bwyd nawr ac yn y dyfodol er mwyn diogelu grwpiau sy'n agored i niwed a lleihau'r effeithiau ar iechyd.
• Dim ond wrth i ystod eang o sectorau gan gynnwys iechyd, yr amgylchedd, llywodraeth, cymdeithas sifil, ffermwyr, cynhyrchwyr / manwerthwyr masnach a bwyd gydweithio y gellir diogelu'r cyflenwad bwyd ar gyfer iechyd a llesiant.
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
O: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn sgil y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddod). Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd o ran Iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru
Pwyslais ar: Ddiogelwch Bwyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021). Kovats, S. a Brisley, R. (2021) Health, Communities and the Built Environment. Yn: The Third UK Climate Change Risk Assessment Technical Report.


Effeithiau mwy o dywydd poeth ar iechyd a llesiant
Mae'r newid yn yr hinsawdd yn golygu bod tywydd poeth yn debygol o ddigwydd yn amlach yng Nghymru.
Erbyn y 2050au rhagwelir y bydd y tymheredd blynyddol yn codi 1.2˚C yng Nghymru
+1.2˚C
Yn ôl Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU 2021:
• Un o'r prif flaenoriaethau gweithredu dros y 2 flynedd nesaf yw rheoli'r risg yn sgil gwres mewn cartrefi ac adeiladau
• Mae angen cymryd mwy o gamau er mwyn rhoi sylw i'r risgiau i iechyd dynol, llesiant a chynhyrchiant
Mae angen camau gweithredu ar draws sectorau
Mae angen i ni gynllunio ac addasu
Ysgolion a lleoliadau addysgol eraill:
• Salwch sy'n gysylltiedig â gwres
• Methu canolbwyntio
• Llai o allu i ddysgu
Gweithleoedd:
• Salwch sy'n gysylltiedig â gwres
• Llai o gynhyrchiant
• Llai diogel
Cartrefi:
• Salwch sy'n gysylltiedig â gwres
• Tarfu ar gwsg
• Y gallu i leihau costau gwresogi yn yr hirdymor
Ysbytai a chartrefi gofal:
• Anghysur thermol ymysg cleifion/preswylwyr a staff
• Salwch sy'n gysylltiedig â gwres ymysg cleifion/preswylwyr a staff
• Tarfu ar gwsg
• Effaith negyddol ar gyflyrau megis problemau iechyd meddwl, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol
• Problemau gyda chyfarpar a systemau TG
• Tarfu ar gyfarpar mewn labordy
• Niwed i feddyginiaethau
Y ffactorau sy'n effeithio ar wres mewn adeiladau yw:
• Dyluniad a deunyddiau
• Math o adeilad
• Lleoliad a safle
• Deunydd inswleiddio
• Awyru
• Cysgod y tu allan
• Nifer y bobl mewn ystafelloedd
• Math o weithgareddau
• Cyfarpar TG a thrydanol sy'n cynhyrchu gwres
Mae angen cymryd rhagor o gamau ar draws sectorau er mwyn cynllunio ar gyfer mwy o dywydd poeth:
• Mae angen dylunio ysgolion, cartrefi, ysbytai a lleoliadau gofal newydd i atal yr effeithiau iechyd a ddaw yn sgil mwy o dywydd poeth
• Mae angen cynyddu'r cymhellion i wneud gwaith ôl-osod mewn cartrefi presennol
• Gall cynllunio'r broses o blannu coed yn dda ddarparu cysgod sy'n lleihau'r amlygiad i wres mewn mannau trefol, lleoliadau gofal, cartrefi, ysgolion a meysydd chwarae
Cyngor ar Dywydd Eithafol
• Mae Tîm Diogelu Iechyd yr Amgylchedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor ar dywydd eithafol i'r cyhoedd a sefydliadau ledled Cymru ynglŷn â sut i ddiogelu iechyd yn ystod tywydd eithafol, tywydd poeth a llifogydd. Gallwch gael gwybod mwy yn: Digwyddiadau Tywydd Eithafol – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
O: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn sgil y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, I ddod). Kovats, S. a Brisley, R. (2021) Health, Communities and the Built Environment. Yn: The Third UK Climate Change Risk Assessment Technical Report.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Canfyddiadau manwl

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Effeithiau ar grwpiau poblogaeth

# Grwpiau Poblogaeth sy'n fwy agored i niwed ac sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant yng Nghymru


| | Ewch i'r dudalen | |
|---|---|---|
| **P1** | | **Grwpiau cysylltiedig ag oedran** |
| P1.1 | ▶ | Babanod, plant a phobl ifanc |
| P1.2 | ▶ | Oedolion hŷn |
| **P2** | | **Grwpiau cysylltiedig â rhyw/rhywedd** |
| P2.1 | ▶ | Menywod |
| P2.2 | ▶ | Menywod beichiog |
| P2.3 | ▶ | Dynion |
| **P3** | | **Grwpiau sydd â risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall** |
| P3.1 | ▶ | Pobl sydd wedi'u dadleoli a ffoaduriaid a cheiswyr lloches (gweler D3.2) |
| P3.2 | ▶ | Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir a/neu anableddau |
| P3.3 | ▶ | Pobl sy'n ddigartref |
| P3.4 | ▶ | Grwpiau lleiafrifoedd ethnig |
| P3.5 | ▶ | Pobl sy'n newydd i ardal |

| | Ewch i'r dudalen | |
|---|---|---|
| **P4** | | **Grwpiau cysyltiedig ag incwm** |
| P4.1 | ▶ | Pobl sy'n byw ar incwm isel |
| **P5** | ▶ | Grwpiau galwedigaethol (gweler D6.1) |
| **P6** | | **Grwpiau daearyddol** |
| P6.1 | ▶ | Cymunedau arfordirol |
| P6.2 | ▶ | Ardaloedd perygl llifogydd (gweler D5.3) |
| P6.3 | ▶ | Ardaloedd diwydiannol blaenorol a phresennol |
| P6.4 | ▶ | Ardaloedd trefol |
| P6.5 | ▶ | Ardaloedd gwledig |
| P6.6 | ▶ | Ardaloedd o anfantais lluosog |

# P1.1 Babanod, plant a phobl ifanc

### Nodweddion yr effaith ar fabanod, plant a phobl ifanc

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Posibl | B i C | Mawr | Tebygol / Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant babanod, plant a phobl ifanc?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Cymryd rhan mewn gweithredu ar y cyd i leihau allyriadau carbon ac addasu i newid hinsawdd
- Adeiladu ymdeimlad o reolaeth, pwrpas a chyfranogiad fel cyfryngau newid cadarnhaol
- Syniadau ymarferol a chreadigol i helpu cymunedau i wella ar ôl trychinebau
- Addysg ar newid hinsawdd mewn ysgolion a gwasanaethau ieuenctid
- Gall tywydd cynhesach gynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored

### Effeithiau negyddol

- Amharu ar addysg
- Amharu ar weithgarwch corfforol, chwaraeon awyr agored a chwarae
- Dadleoli o'u cartref, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth yn deillio o lifogydd ac erydu arfordirol
- Straen a gorbryder iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd yn deillio o lifogydd
- Risg uwch o salwch sy'n gysylltiedig â gwres
- Cynnydd mewn anafiadau
- Yn fwy agored i ansawdd aer gwael a mwg tanau gwyllt
- Gorbryder ynghylch sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y dyfodol
- Trallod mewn ymateb i ddigwyddiadau/ trychinebau tywydd eithafol
- Yn fwy agored i darfu ar faethiad a diogelwch bwyd

# P1.2 Oedolion hŷn

## Nodweddion yr effaith ar oedolion hŷn

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Mawr | Tebygol | C i H | Mawr | Tebygol / Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant oedolion hŷn?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Llai o farwolaethau a morbidrwydd sy'n gysylltiedig ag oerfel yn y tymor hir

### Effeithiau negyddol

- Yn fwy agored i forbidrwydd a marwolaethau oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gwres, cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol sy'n gysylltiedig â thywydd poeth a gwres eithafol
- Arwahanrwydd cymdeithasol yn deillio o wres/tywydd poeth iawn
- Yn fwy tebygol o fod yn agored i orboethi mewn ysbytai a chartrefi gofal
- Mwy agored i ganlyniadau iechyd negyddol o ansawdd aer gwael
- Mwy agored i niwed mewn tywydd eithafol a llifogydd (ee gall wynebu rhwystrau i wacáu'n ddiogel, yn fwy agored i sioc a hypothermia)
- Amharu ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

# P2.1 Menywod

## Nodweddion yr effaith ar fenywod

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Tebygol | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant menywod?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Yn fwy agored i ystod o effeithiau ar iechyd yn sgil newid hinsawdd yn ystod beichiogrwydd
- Yn fwy agored i drais domestig a rhywiol mewn sefyllfaoedd gwres eithafol ac ar ôl trychineb
- Mynychder uwch o anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ac anhwylderau iechyd meddwl eraill ar ôl llifogydd a thrychinebau
- Gall gwacáu yn ystod llifogydd fod yn anoddach i aelwydydd un rhiant
- Mae menywod yn fwy agored i effeithiau galwedigaethol fel gwres yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg
- Yn fwy tebygol o fod yn byw ar incwm is i baratoi, ymateb ac ymadfer ar ôl digwyddiadau tywydd eithafol

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# P2.2 Menywod beichiog

## Nodweddion yr effaith ar fenywod

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Posibl | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant menywod beichiog?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Ni nodwyd unrhyw rai

### Effeithiau negyddol

- Yn fwy agored i effeithiau iechyd a llesiant llifogydd ee iechyd meddwl, gwacáu
- Gall llygredd aer arwain at bwysau geni isel
- Gall gwres eithafol effeithio ar ganlyniadau genedigaeth
- Effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant meddwl yn dilyn digwyddiadau tywydd eithafol
- Amharu ar fynediad i ofal mamolaeth cyn ac ôl-enedigol arferol yn sgil tywydd eithafol/ llifogydd
- Mwy o sensitifrwydd i amharu ar fynediad at fwyd a maeth

# P2.3 Dynion

### Nodweddion yr effaith ar ddynion

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Posibl / Tebygol | B i H | Cymedrol | Posibl / Tebygol | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

### Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant dynion?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ar hyn o bryd yn fwy tebgyol o gael cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant yn yr "economi werdd"

**Effeithiau negyddol**

- Yn agored i effeithiau iechyd oherwydd gwres eithafol o ganlyniad i fod yn fwy tebygol o weithio yn yr awyr agored neu mewn gweithgynhyrchu
- Mwy o risg posibl o effeithiau iechyd meddwl yn sgil tywydd poeth a sychder, yn enwedig ar ddynion gwledig

# P3.2 Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir a/neu anableddau

**Nodweddion yr effaith ar bobl â chyflyrau iechyd tymor hir a/neu anableddau**

| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
| | | | ✸✸ i ✸✸✸ | ✓ | B i H |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✸✸✸ Mawr ✸✸ Cymedrol ✸ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Pobl â chyflyrau anadlol a chardiofasgwlaidd mewn mwy o berygl o farw mewn tywydd poeth
- Yn fwy agored i niwed yn ystod tywydd poeth, sychder, ansawdd aer gwael a llifogydd
- Yn agored i orboethi mewn cartrefi gofal ac ysbytai
- Symptomau rhai cyflyrau yn gwaethygu ac aflonyddwch cwsg
- Gall wynebu rhwystrau i gael mynediad at wybodaeth argyfwng a diogelu iechyd
- Mae pobl ag anawsterau symudedd yn fwy agored i niwed mewn sefyllfaoedd gwacáu
- Amharu ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn tywydd eithafol
- Gall fod â llai o fynediad at yr adnoddau ariannol a materol i baratoi, ymateb ac ymadfer o dywydd eithafol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

# P3.3 Pobl sy'n ddigartref

### Nodweddion yr effaith ar bobl sy'n ddigartref

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Duration |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Mawr | Tebygol / Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl sy'n ddigartref?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Yn fwy agored i niwed ac yn agored i forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yn ystod tymereddau uwch a gwres eithafol / tywydd poeth
- Mwy agored i bob math o dywydd eithafol gan gynnwys oerfel, stormydd, gwynt a mwy o law
- Yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac iechyd sy'n cynyddu'r bregusrwydd i newid yn yr hinsawdd

# P3.4 Grwpiau lleiafrifoedd ethnig

**Nodweddion yr effaith ar grwpiau ethnig lleiafrifol**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | |
| | | | | | B i H |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Llai o adnoddau i addasu i newid hinsawdd oherwydd y tebygolrwydd uwch o incwm isel a byw mewn llety rhent preifat
- Mwy tebygol o fod yn agored trwy alwedigaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- Gall pobl nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg wynebu rhwystrau o ran mynediad at wybodaeth sy'n bwysig ar gyfer addasu a diogelu rhag tywydd eithafol a llifogydd
- Yn fwy tebygol o fod yn agored i dymheredd uwch a thywydd poeth mewn ardal drefol

# P3.5 Pobl sy'n newydd i ardal

**Nodweddion yr effaith ar bobl sy'n newydd i ardal**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | ✸✸ | ✔ | B i H |

✔✔ Cadarnhawyd ✔ Tebygol ? Posibl ✸✸✸ Mawr ✸✸ Cymedrol ✸ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl sy'n newydd i ardal?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Yn fwy agored i niwed mewn tywydd eithafol oherwydd diffyg gwybodaeth leol a rhwydweithiau cymdeithasol
- Gall wynebu rhwystrau iaith wrth gael mynediad at ganllawiau a rhybuddion tywydd brys

# P4.1 Pobl sy'n byw ar incwm isel

### Nodweddion yr effaith ar bobl sy'n byw ar incwm isel

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✸✸ | ? | H | ✸✸✸ | ✓ / ✓✓ | B i H |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✸✸✸ Mawr ✸✸ Cymedrol ✸ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl sy'n byw ar incwm isel?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Costau ynni is posibl yn y tymor hir yn deillio o dymheredd uwch
- Sgiliau, diwydiannau a swyddi newydd yn cael eu creu yn gysylltiedig ag "economi werdd" / datgarboneiddio

### Effeithiau negyddol

- Mwy o ansicrwydd bwyd
- Llai abl i allu fforddio addasiadau hinsawdd ar gyfer cartrefi
- Llai abl i fforddio yswiriant neu atgyweiriadau i gartrefi yn dilyn tywydd eithafol neu lifogydd
- Llai o fynediad at adnoddau i ymdopi os yn cael eu gwacau ar ôl llifogydd
- Mwy o effeithiau economaidd yn sgil llifogydd
- Llai o fynediad i gar neu fan mewn argyfwng
- Gall trosglwyddo i ynni carbon isel olygu costau ynni uwch yn y tymor byr i ganolig

# P6.1 Cymunedau arfordirol

## Nodweddion yr effaith ar gymunedau arfordirol

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | | Mewn rhai ardaloedd | B i H |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant cymunedau arfordirol?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Cynnydd posibl mewn hamdden awyr agored a thwristiaeth yng Nghymru
- Ymgysylltu cymunedol o ran datblygu a gweithredu polisïau a chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

### Effeithiau negyddol

- Mwy agored i effeithiau iechyd meddwl a chorfforol llifogydd
- Sicrwydd economaidd i unigolion a theuluoedd
- Ansicrwydd a gorbryder ynghylch y dyfodol
- Potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar economïau arfordirol megis twristiaeth a physgota

# P6.3 Ardaloedd diwydiannol blaenorol a phresennol

### Nodweddion yr effaith ar ardaloedd diwydiannol blaenorol a phresennol

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✷✷✷ | ? | B i H | ✷✷ i ✷✷✷ | ? | B i H |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✷✷✷ Mawr ✷✷ Cymedrol ✷ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant ardaloedd diwydiannol blaenorol a phresennol?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Gallai gweithredu i ddatgarboneiddio diwydiant wella ansawdd aer
- Sgiliau, diwydiannau a swyddi newydd yn cael eu creu yn gysylltiedig ag “economi werdd” / datgarboneiddio

**Effeithiau negyddol**

- Risg o fethiant llethrau ar domenni glo
- Llifogydd yn gysylltiedig â hen seilwaith mwyngloddio
- Gall ansawdd aer gwael sy’n bodoli eisoes gael ei effeithio gan newid hinsawdd
- Potensial ar gyfer ehangu anghydraddoldebau os nad yw’r buddion sy’n deillio o ddatgarboneiddio’r diwydiant yn deg

# P6.4 Ardaloedd trefol

### Nodweddion yr effaith ar ardaloedd trefol

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✷✷ | ? | B i H | ✷✷✷ | ✓ / ✓✓ | B i H |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✷✷✷ Mawr ✷✷ Cymedrol ✷ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

### Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar ardaloedd trefol?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Defnyddio atebion seiliedig ar natur a mannau gwyrdd i fynd i'r afael â llifogydd ac effeithiau ynysoedd gwres trefol
- Potensial ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol gan arwain at fwy o ddefnydd a gwell canlyniadau iechyd

**Effeithiau negyddol**

- Mwy o fregusrwydd i effeithiau sy'n deillio o dymheredd uwch a gwres eithafol
- Tai trefol fel cartrefi llai, fflatiau ac anheddau gorlawn sy'n fwy agored i orboethi
- Mwy o fregusrwydd i newidiadau mewn ansawdd aer
- Yn agored i effeithiau llifogydd

# P6.5 Ardaloedd gwledig

### Nodweddion yr effaith ar gymunedau gwledig

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | B i H | | | B i H |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Twf posibl o gnydau newydd neu dymhorau tyfu estynedig
- Cyfleoedd newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy

**Effeithiau negyddol**

- Llifogydd
- Tanau gwyllt
- Ansawdd Aer
- Diogeledd economaidd
- Ansicrwydd a phryder ynghylch dyfodol sectorau allweddol yn yr economi wledig
- Amhariad ar fynediad i wasanaethau
- Ansawdd a chyflenwad dŵr

# P6.6 Ardaloedd o anfantais lluosog

### Nodweddion yr effaith ar ardaloedd o amddifadedd lluosog

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | ✱✱ i ✱✱✱ | ✓ | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · ✱✱✱ Mawr · ✱✱ Cymedrol · ✱ Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd lluosog?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Mwy o fregusrwydd ar draws meysydd lluosog o anfantais yn gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol, incwm isel; ansawdd tai, yr amgylchedd ffisegol, mynediad at wasanaethau
- Mwy o fregusrwydd yn gysylltiedig â lefelau problemau iechyd corfforol a meddyliol

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Effeithiau ar benderfynyddion ehangach iechyd

# Penderfynyddion Iechyd y mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt yng Nghymru


| | Ewch i'r dudalen | |
|---|---|---|
| **D1** | ▶ | **Sicrwydd bwyd a maeth** |
| **D2** | | **Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd** |
| D2.1 | ▶ | Gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden awyr agored |
| A1* | | Camddefnyddio alcohol a sylweddau dygiadau sy'n effeithio ar iechyd |
| **D3** | | **Ffactorau cymdeithasol a chymunedol** |
| D3.1 | ▶ | Gwydnwch a chydlyniant cymunedol |
| D3.2/P3.1 | ▶ | Dadleoli poblogaeth, symudedd a mudo |
| A2 | | Trais |
| A3 | | Perthnasoedd teuluol a rhwng cenedlaethau |
| **D4** | ▶ | **Iechyd a llesiant meddyliol** |
| **D5** | | **Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd** |
| D5.1 | ▶ | Tai |
| D5.2 | ▶ | Ansawdd aer |
| D5.3/P6.2 | ▶ | Llifogydd |
| D5.4 | ▶ | Tymheredd uwch a gwres eithafol |
| D5.5 | ▶ | Cyflenwad ac ansawdd dŵr |
| D5.6 | ▶ | Amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth |

| | Ewch i'r dudalen | |
|---|---|---|
| D5.7 | ▶ | Tirlithriadau a thomenni glo |
| D5.8 | ▶ | Tanau gwyllt |
| D5.9 | ▶ | Clefydau a gludir gan fector |
| **D6** | | **Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd** |
| D6.1/P5 | ▶ | Amodau gwaith |
| D6.2 | ▶ | Datblygiad economaidd a sgiliau |
| **D7** | | **Mynediad ac ansawdd gwasanaethau** |
| D7.1 | ▶ | Iechyd a gofal cymdeithasol: mynediad a darpariaeth |
| D7.2 | ▶ | Addysg |
| **D8** | | **Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd** |
| D8.1 | ▶ | Trafnidiaeth |
| D8.2 | ▶ | Seilwaith |


* Mae adrannau sydd wedi'u labelu A1-A3 yn crynhoi tystiolaeth a arfarnwyd ar effeithiau ar dri phenderfynydd cymdeithasol iechyd a nodwyd gan randdeiliaid fel rhai pwysig ac sy'n hynod berthnasol i iechyd y boblogaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a nodwyd yn y llenyddiaeth i alluogi asesiad o lefel yr effaith bosibl ar Gymru, felly mae pob un o'r meysydd hyn yn feysydd a argymhellir ar gyfer ymchwil pellach

# D1 Sicrwydd bwyd a maeth

### Nodweddion yr effaith ar sicrwydd bwyd a maeth

| | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| **Defnyddio bwyd: bwyta'n iach** | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | B i H | | | |
| **Argaeledd bwyd: cynhyrchu a sicrwydd** | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | B i H | ✱✱✱ | ✓ | B i H |
| **Hygyrchedd bwyd: cost bwyd** | | | | ✱✱✱ | ✓ | B i H |
| **Cynnwys maethol bwyd** | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ✱✱✱ | ✓ | B i H |
| **Clefyd a Gludir gan Fwyd** | | | | ✱✱ | ? | Anhysbys |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✱✱✱ Mawr ✱✱ Cymedrol ✱ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## ? Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar fwyd a maeth?

### Effeithiau cadarnhaol neu gyfleoedd

- Defnyddio bwyd: bwyta'n iach trwy fabwysiadu diet mwy cynaliadwy yn seiliedig ar gymeriant uwch o fwydydd sy'n seiliedig ar blanhigion, hy diet EAT well Lancet
- Argaeledd bwyd: twf cnydau newydd a/neu ddulliau technolegol newydd o gynhyrchu bwyd yng Nghymru
- Argaeledd bwyd a bioamrywiaeth: datblygu system fwyd gynaliadwy
- Gwerth maethol bwyd

### Effeithiau negyddol

- Hygyrchedd bwyd: cost bwyd ac ansicrwydd / tlodi bwyd cynyddol
- Argaeledd bwyd: cyflenwi a chynhyrchu
- Diogelwch bwyd a chlefydau a gludir gan fwyd
- Gwerth maethol bwyd

# D2.1 Gweithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden awyr agored

**Nodweddion yr effaith ar weithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden awyr agored**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Posibl | B i H ond gall fod yn fwy yn y tymor byr | ✷✷ | Posibl / Tebygol | B i C |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · ✷✷✷ Mawr · ✷✷ Cymedrol · ✷ Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar weithgarwch corfforol a gweithgareddau hamdden awyr agored?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Mwy o weithgarwch corfforol
- Mwy o deithio llesol
- Mwy o weithgareddau awyr agored
- Mwy o chwarae egnïol yn yr awyr agored i blant
- Treulio mwy o amser mewn amgylcheddau naturiol

**Effeithiau negyddol**

- Llai o weithgarwch corfforol
- Llai o deithio llesol
- Llai o chwarae egnïol yn yr awyr agored i blant
- Mwy o gymryd risg mewn gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys risg uwch o anafiadau, boddi a nofio mewn amodau anniogel
- Mwy o risg o straen gwres
- Mwy o amlygiad i ymbelydredd UV o olau'r haul
- Mwy o risg o glefydau a gludir gan diciau
- Amhariad cynyddol ar weithgareddau chwaraeon trefniadol

# D3.1 Gwydnwch a chydlyniant cymunedol

**Nodweddion yr effaith ar wydnwch a chydlyniant cymunedol**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✱✱ / ✱✱✱ | ✔ | B i H | ✱✱ / ✱✱✱ | ? / ✔ | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar wydnwch cymunedol?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Adeiladu ar, a chynnal, ehangu gweithredu a arweinir gan y gymuned a chyd-gymorth a ddatblygwyd yn ystod pandemig COVID-19
- Gall undod cymunedol fod o fudd i iechyd a llesiant a chynorthwyo adferiad o drychinebau naturiol
- Gall gweithredu a arweinir gan y gymuned ar newid hinsawdd feithrin ymddiriedaeth a chyfalaf cymdeithasol, a gwella ymdeimlad o reolaeth a gwydnwch sy'n ffactorau amddiffynnol ar gyfer llesiant meddwl.
- Datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â byw'n gynaliadwy a datgarboneiddio

### Effeithiau Negyddol

- Amharu a difrod i berthnasoedd cymunedol a chydlyniant
- Colli neu ddifrodi asedau cymunedol ee mannau cyfarfod cymunedol a mannau o arwyddocâd diwylliannol neu hanesyddol
- Gall tymereddau uchel leihau cyfranogiad cymdeithasol
- Gall rhaniadau godi mewn cymunedau o'r modd y dyrennir adnoddau i fynd i'r afael â newid hinsawdd
- Gall dadleoli oherwydd llifogydd, neu fudo mewnol/allanol amharu ar berthnasoedd a chydlyniant cymunedol

# D3.2/P3.1 Dadleoli poblogaeth, symudedd a mudo

## Nodweddion yr effaith ar ddadleoli poblogaeth, symudedd a mudo

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Posibl | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | Mawr i'r rhai yr effeithir arnynt | Tebygol / Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae dadleoli poblogaeth a symudedd sy'n deillio o newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Pan gaiff ei gynllunio a'i gefnogi, gall mudo gwirfoddol fod yn ymateb ymaddasol i newid hinsawdd
- Gall ymfudwyr ddod â chyfalaf dynol a sgiliau er budd yr economi a chymunedau

### Effeithiau negyddol

- Colli cefnogaeth gymdeithasol
- Effeithiau economaidd ar incwm, bywoliaethau a chyflogaeth
- Mwy o risg o orbryder, iselder ac Anhwylder Straen Wedi Trawma
- Amharu ar addysg
- Colli lleoedd gwerthfawr yn arwain at drallod emosiynol ("solastalgia")
- Effeithiau negyddol ar ansawdd a diogelwch tai
- Amharwyd ar fynediad i wasanaethau
- Bod yn agored i berygl corfforol, anaf, trawma a thrais

# D4 Iechyd a llesiant meddyliol

## Nodweddion yr effaith ar iechyd a llesiant meddwl

| | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd: Dwysedd | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd: Tebygolrwydd | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd: Hyd | Effeithiau negyddol: Dwysedd | Effeithiau negyddol: Tebygolrwydd | Effeithiau negyddol: Hyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llesiant meddwl** | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | B i H | ✱✱✱ | ✓ | B i H |
| **Unigrwydd cymdeithasol** | | | | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | B i H |
| **Anhwylder meddwl** | | | | ✱✱✱ | ✓✓ (llifogydd) ✓ (gwres ac effeithiau anuniongyrchol eraill) | B i H |
| **Hunanladdiad** | | | | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ar gyfer Cymru | ? | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ar gyfer Cymru |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✱✱✱ Mawr ✱✱ Cymedrol ✱ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant meddwl?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Gwella rheolaeth a chyfranogiad trwy gymryd camau i liniaru newid hinsawdd
- Adeiladu gwydnwch a chydlyniant cymunedol
- Gwirfoddoli a helpu eraill i gymryd camau i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd ac wrth ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol ac adferiad ohonynt
- Dysgu sgiliau newydd
- Mwy o weithgarwch awyr agored a chysylltiadau â'r amgylchedd naturiol mewn mannau gwyrdd a glas

### Effeithiau negyddol

- Teimladau o bryder a gorbryder am ansicrwydd y dyfodol
- Teimladau o golled, trallod a galar
- Unigrwydd cymdeithasol
- Iselder
- Anhwylder Straen Wedi Trawma ar ôl profi digwyddiad tywydd eithafol hy llifogydd
- Anhwylderau gorbryder
- Symptomau gwaeth anhwylderau meddwl a dementia

# D5.1 Tai

### Nodweddion yr effaith ar dai

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✸✸ | ? | B i H | ✸✸ / ✸✸✸ | ✓ / ✓✓ | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Camedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar dai yn effeithio ar iechyd a llesiant?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Llai o farwolaethau a morbidrwydd oherwydd tywydd oer yn y tymor hir
- Gwell effeithlonrwydd ynni
- Potensial ar gyfer costau gwresogi is yn y tymor hir oherwydd tymereddau uwch

### Effeithiau Negyddol

- Cynnydd mewn lleithder a llwydni
- Effeithiau negyddol ar iechyd anadlol
- Cynnydd mewn difrod i dai oherwydd tywydd eithafol a llifogydd
- Cynnydd mewn costau atgyweirio ac ôl-osod
- Cynnydd mewn gorboethi
- Ansawdd aer dan do gwaeth
- Mwy o risg o ymsuddiant
- Anafiadau oherwydd tywydd eithafol yn effeithio ar dai ee gwyntoedd cryfion
- Gorboethi mewn cartrefi oherwydd mesurau effeithlonrwydd ynni ee diffyg awyru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# D5.2 Ansawdd aer

**Nodweddion yr effaith ar iechyd a llesiant yn sgil newidiadau mewn ansawdd aer yn yr awyr agored**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✹✹ | ? | B i H | ✹✹ | ? | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · ✹✹✹ Mawr · ✹✹ Cymedrol · ✹ Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar ansawdd aer yn yr awyr agored yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Datgarboneiddio cynhyrchu trydan a thrafnidiaeth yn arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr a deunydd gronynnol yn arwain at wella ansawdd aer
- Gall mwy o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i datgarboneiddio a theithio llesol arwain at ganlyniadau iechyd cadarnhaol drwy allyridadau is, gwell answdd aer, a mwy o weithgarwch corfforol

**Effeithiau negyddol**

- Marwolaeth
- Morbidrwydd anadlol
- Derbyniadau anadlol i'r ysbyty
- Ymatebion alergenaidd i baill
- Effeithiau negyddol ar iechyd meddwl
- Crynodiadau uwch o osôn a llygryddion eraill
- Mwy o lygryddion o danau gwyllt

# D5.3/P6.2 Llifogydd

## Nodweddion effaith llifogydd ar iechyd a llesiant

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Mawr (✸✸✸) | Cadarnhawyd (✔✔) | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar lifogydd yn effeithio ar iechyd a llesiant?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Cyfle i adeiladu gwydnwch a chydlyniant cymunedol
- Cyd-gymorth
- Systemau rhybudd cynnar
- Ymgysylltu cymunedol o ran datblygu a gweithredu polisïau a chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

### Effeithiau negyddol

- Marwolaeth neu anafiadau
- Effeithiau hirdymor a difrifol ar iechyd a llesiant meddwl gan gynnwys iselder ac Anhwylder Straen Wedi Trawma
- Effeithiau economaidd ar incwm, bywoliaethau a chyflogaeth
- Amharu ar addysg
- Colli lleoedd gwerthfawr yn arwain at drallod emosiynol ("solastalgia")
- Difrod i gartrefi
- Amharu ar fynediad i wasanaethau
- Salwch yn deillio o ddŵr halogedig
- Colli amwynder twristiaeth, adloniadol a hamdden
- Difrod i safleoedd diwylliannol a threftadaeth
- Difrod ac aflonyddwch i drafnidiaeth a seilwaith
- Colled a difrod i eiddo
- Amharu ar gymorth cymdeithasol
- Straen ac aflonyddwch oherwydd dadleoli dros dro neu barhaol (Gweler Adran D3.2)

# D5.4 Tymheredd uwch a gwres eithafol

**Nodweddion effeithiau tymheredd uwch a gwres eithafol**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | C i H | | | B i H |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae cynnydd mewn tymheredd a gwres eithafol yn sgil newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Llai o forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel yn y tymor hir

**Effeithiau negyddol**

- Marwolaethau o gyflyrau anadlol, cardiofasgwlaidd, cysylltiedig â dementia, a chamddefnyddio alcohol a sylweddau
- Dadhydradu
- Salwch sy'n gysylltiedig â gwres
- Effeithiau negyddol ar ganlyniadau genedigaeth
- Mwy o anafiadau a damweiniau, gan gynnwys boddi
- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Symptomau gwaeth anhwylder meddwl
- Trais
- Hunanladdiad
- Clefyd a gludir gan fwyd
- Galw cynyddol ar wasanaethau iechyd
- Llai o gynhyrchiant
- Aflonyddwch a difrod i seilwaith a thrafnidiaeth

# D5.5 Cyflenwad ac ansawdd dŵr

## Nodweddion yr effaith ar gyflenwad ac ansawdd dŵr

| | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| **Cyflenwad dŵr** | | | | ✱✱ ond ✱✱✱ i bobl sy'n dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat | Tebygol / Cadarnhawyd | B to H |
| **Ansawdd Dŵr** | | | | ✱✱ ond ✱✱✱ yn ystod digwyddiadau penodol, e.e. llifogydd, tanau gwyllt, glawiad uchel ac ati. | Cadarnhawyd | B to H |

Cadarnhawyd | Tebygol | Posibl | ✱✱✱ Mawr | ✱✱ Cymedrol | ✱ Bach | B Tymor byr | C Tymor canolig | H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar gyflenwad ac ansawdd dŵr?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Ni nodwyd unrhyw rai

### Effeithiau negyddol

- Mwy o law a llifogydd yn arwain at ansawdd dŵr is
- Gall bod yn agored i ddŵr yfed neu ymdrochi halogedig achosi salwch, haint a phroblemau gastroberfeddol
- Tymheredd uwch a llif dŵr isel yn cynyddu crynodiad llygryddion
- Tebygolrwydd cynyddol o gyfnodau o sychder/prinder dŵr
- Mae straen ac effeithiau iechyd meddwl yn gysylltiedig â sychder ar nifer o grwpiau poblogaeth

# D5.6 Amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth

### Nodweddion yr effaith ar amgylcheddau naturiol a bioamrywiaeth

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | B i H | | | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

### Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar amgylcheddau naturiol yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Gall strategaethau lliniaru natur fod o fudd i iechyd a llesiant ee, trwy gael gwared ar lygryddion aer, atal llifogydd, lleihau effeithiau gwres newid hinsawdd a chynyddu mynediad i fannau gwyrdd a naturiol.

**Effeithiau negyddol**

- Colled, amhariad neu ddifrod i wasanaethau ecosystem fel aer a dŵr glân
- Amharu ar gynhyrchu, sicrwydd a chyflenwad bwyd
- Colli neu ddifrod i fynediad i amgylcheddau naturiol gwerthfawr sy’n darparu buddion i lesiant corfforol, meddwl a chymdeithasol a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau

# D5.7 Tirlithriadau a thomenni glo

**Nodweddion yr effaith ar:**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Mawr pryd/lle maent yn digwydd | Posibl / Tebygol | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Effeithiau tirlithriadau ar iechyd a llesiant

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Rheoli tir yn gynaliadwy

**Effeithiau negyddol**

- Injury
- Marwolaeth
- Costau economaidd
- Amhariad ar fynediad i wasanaethau
- Llesiant meddwl (mwy o orbryder)

# D5.8 Tanau gwyllt

## Nodweddion effaith tanau gwyllt ar iechyd a llesiant

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Mawr (✱✱✱) yr ardaloedd yr effeithir arnynt | Tebygol | B i H |

Cadarnhawyd | Tebygol | Posibl | ✱✱✱ Mawr | ✱✱ Cymedrol | ✱ Bach | B Tymor byr | C Tymor canolig | H Tymor hir

## Sut mae effaith newid hinsawdd ar danau gwyllt yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Llygredd aer
- Llygredd dŵr
- Effeithiau negyddol ar iechyd anadlol a chardiofasgwlaidd
- Llosgiadau
- Effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant
- Marwolaethau oherwydd anadlu mwg tanau gwyllt
- Llid llygaid a llai o weledEdd

# D5.9 Clefydau a gludir gan fector

**Nodweddion effaith newid hinsawdd ar glefydau a gludir gan fector**

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | ✸✸ tymor byr i ganolig ✸✸✸ yn y tymor hir | ? | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · ✸✸✸ Mawr · ✸✸ Cymedrol · ✸ Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar glefydau a gludir gan fector a chlefydau milheintiol?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Ni nodwyd unrhyw rai

**Effeithiau negyddol**

- Cynnydd posibl mewn clefyd Lyme trwy drogod
- Cynnydd posibl mewn clefydau a drosglwyddir gan mosgitos a culex

# D6.1/P5 Amodau Gwaith

## Grwpiau galwedigaethol allweddol yr effeithir arnynt yn cynnwys:

- Gweithwyr awyr agored: amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgota, cyfleustodau, cynnal a chadw ac adeiladu
- Gweithwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau brys
- Gweithgynhyrchu
- Trafnidiaeth
- Addysg
- Carchardai

### Nodweddion effaith newid hinsawdd ar amodau gwaith

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ? | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth | ✷✷ i ✷✷✷ ar gyfer gweithluoedd risg uchel | ✓ | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · ✷✷✷ Mawr · ✷✷ Cymedrol · ✷ Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

### Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar amodau gwaith yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Gostyngiad posibl mewn anafiadau cysylltiedig â gwaith a achosir gan oerfel

**Effeithiau negyddol**

- Mwy o salwch ac anafiadau cysylltiedig â gwres
- Anafiadau a marwolaethau oherwydd tywydd eithafol/llifogydd
- Salwch gastroberfeddol o ddod i gysylltiad â llifogydd
- Salwch anadlol o ddod i gysylltiad â thanau gwyllt ac ansawdd aer gwael
- Straen, aflonyddwch cwsg ac iechyd meddwl o ddod i gysylltiad â mwy o argyfyngau/trychinebau
- Niwed i'r croen oherwydd mwy o ymbelydredd uwch-fioled B
- Mwy o amlygiad i glefydau a gludir gan fector

# D6.2 Datblygiad economaidd a sgiliau

### Nodweddion yr effaith ar ddatblygiad economaidd a sgiliau

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd** | | | **Effeithiau negyddol** | | |
| ✱✱ i ✱✱✱ | ? | B i H | ✱✱✱ | ✔✔ | B i H |

✔✔ Cadarnhawyd ✔ Tebygol ? Posibl ✱✱✱ Mawr ✱✱ Cymedrol ✱ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar yr economi a sgiliau yn effeithio ar iechyd a llesiant?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Ehangu cyfleoedd cysylltiedig â thwristiaeth
- Sgiliau, diwydiannau a swyddi newydd yn cael eu creu yn gysylltiedig ag "economi werdd" / datgarboneiddio
- Datblygu "economi gylchol" a chyfleoedd cysylltiedig

### Effeithiau negyddol

- Llai o gynhyrchiant ac effeithiau ar iechyd staff oherwydd tymereddau uwch/gwres eithafol
- Effeithiau negyddol ar amodau economaidd sy'n effeithio ar incwm unigolion a theuluoedd a sicrwydd economaidd
- Aflonyddwch, llai o gynhyrchiant a chostau ychwanegol i fusnes yn gysylltiedig ag effeithiau uniongyrchol cyfunol a chronnus o dywydd eithafol, tywydd poeth, llifogydd, prinder dŵr, cynnydd yn lefel y môr ac erydu arfordirol
- Aflonyddwch, llai o gynhyrchiant a chostau ychwanegol i fusnes yn gysylltiedig ag effeithiau anuniongyrchol megis difrod i seilwaith a thrafnidiaeth
- Aflonyddu ar gadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu
- Cost ac argaeledd cyllid, buddsoddiad ac yswiriant
- Effeithiau negyddol ar dwristiaeth oherwydd difrod amgylcheddol
- Ehangu anghydraddoldebau os na chaiff buddion datgarboneiddio a'r "economi werdd" eu rhannu'n gyfartal

# D7.1 Iechyd a gofal cymdeithasol: mynediad a darpariaeth

### Nodweddion yr effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | B i H | i mewn amgylchiadau penodol. | / | B i H |

Cadarnhawyd Tebygol Posibl Mawr Cymedrol Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar fynediad a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Llai o forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel yn y tymor hir
- Datblygu modelau newydd o ofal gwydn gan gynnwys darparu gwasanaethau digidol/rhithwir
- Datgarboneiddio iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

### Effeithiau negyddol

- Aflonyddu ar fynediad a darparu gwasanaethau oherwydd tywydd eithafol a llifogydd
- Gorboethi mewn ysbytai a lleoliadau gofal
- Tymereddau uwch a thywydd poeth yn achosi morbidrwydd a marwolaethau ychwanegol
- Tymereddau uwch a thywydd poeth yn effeithio ar seilwaith TG, offer a meddyginiaethau
- Effeithiau ar iechyd a llesiant y gweithlu gan gynnwys straen a salwch sy'n gysylltiedig â gwres
- Galwadau ychwanegol a newydd ar wasanaethau yn deillio o effeithiau cronnol newid hinsawdd ar draws y boblogaeth

# D7.2 Addysg

## Nodweddion yr effaith ar addysg

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| ✱✱ | ? | B i H | ✱✱ i ✱✱✱ mewn rhai amgylchiadau | ✓ | B i H |

✓✓ Cadarnhawyd ✓ Tebygol ? Posibl ✱✱✱ Mawr ✱✱ Cymedrol ✱ Bach B Tymor byr C Tymor canolig H Tymor hir

## Sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar addysg?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Gall addysg ddarparu gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad a galluoedd i gefnogi addasu i newid hinsawdd, cynaliadwyedd a gwydnwch
- Gall addysg rymuso a galluogi pobl i wneud dewisiadau a gweithredu ar newid hinsawdd fel dinasyddion

### Effeithiau negyddol

- Amharu ar addysg oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys llifogydd
- Difrod i seilwaith addysg a darparu gwasanaethau
- Amharu ar drafnidiaeth ysgol.
- Salwch sy'n gysylltiedig â gwres a gostyngiad mewn dysgu effeithiol oherwydd gorboethi mewn adeiladau ysgol a chyfleusterau preswyl
- Effeithiau ar ddeilliannau addysgol a llesiant meddwl o darfu ar addysg

# D8.1 Trafnidiaeth

### Nodweddion yr effaith ar drafnidiaeth

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd** | | | **Effeithiau negyddol** | | |
| ✱✱ (Cymedrol) | Tebygol | B i H | ✱✱ i ✱✱✱ (Cymedrol i Mawr) | Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd | Tebygol | Posibl | ✱✱✱ Mawr | ✱✱ Cymedrol | ✱ Bach | B Tymor byr | C Tymor canolig | H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar drafnidiaeth yn effeithio ar iechyd a llesiant?

**Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd**

- Gall mwy o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i ddatgarboneiddio a theithio llesol arwain at ganlyniadau iechyd cadarnhaol drwy allyriadau is, ansawdd aer gwell, a mwy o weithgarwch corfforol

**Effeithiau negyddol**

- Difrod i seilwaith a rhwydweithiau thrafnidiaeth
- Amharu ac oedi wrth deithio
- Amharu ar ddosbarthu nwyddau hanfodol
- Amharu ar fynediad i wasanaethau ac addysg
- Amharu ar gyfranogiad cymdeithasol yn arwain at ynysu cymdeithasol
- Amharu ar ddarparu gwasanaethau brys a iechyd a gofal cymdeithasol
- Effeithiau economaidd

# D8.2 Seilwaith

## Nodweddion yr effaith ar seilwaith

| Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd | | | Effeithiau negyddol | | |
| | | | Mawr (3 seren) pan fo tywydd eithafol yn digwydd | Cadarnhawyd | B i H |

Cadarnhawyd · Tebygol · Posibl · Mawr · Cymedrol · Bach · B Tymor byr · C Tymor canolig · H Tymor hir

## Sut mae effeithiau newid hinsawdd ar seilwaith yn effeithio ar iechyd a llesiant?

### Effeithiau cadarnhaol/cyfleoedd

- Datblygu seilwaith ac asedau cyhoeddus cynaliadwy a chadarn

### Effeithiau negyddol

- Cynnydd yn amlder a difrifoldeb difrod ac aflonyddwch i seilwaith hanfodol gan gynnwys trafnidiaeth, rhyngrwyd, ynni a dŵr
- Effeithiau economaidd atgyweirio
- Anafiadau a damweiniau yn deillio o ddifrod i seilwaith
- Amharu ar drafnidiaeth sy'n effeithio ar fynediad at nwyddau hanfodol, gwasanaethau a chysylltiadau cymdeithasol a'r cyflenwad ohonynt
- Amharu ar gyflenwad ynni, rhyngrwyd a thelathrebu yn effeithio ar weithrediad gwasanaethau hanfodol
- Gallai effeithiau ar seilwaith dŵr neu garthffosiaeth a achosir gan lifogydd halogi cyflenwadau dŵr cyhoeddus ac achosi salwch gastroberfeddol

# Canfyddiadau eraill yn yr HIA

## Mae yna ffactorau cyd-destunol sydd hefyd yn dylanwadu ar effeithiau iechyd a llesiant gan gynnwys:

- Democratiaeth, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â'r gymuned
- Ffactorau seicogymdeithasol ac ymddygiadol
- Cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu (gan gynnwys cyfathrebu risg)
- Datblygu cynaliadwy a datgarboneiddio

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Meysydd gweithredu

# Maes gweithredu 1:
# **Gweithredu ar yr effeithiau ar iechyd a nodwyd yn yr HIA**

Gall y data a'r dystiolaeth ar effeithiau ar iechyd a llesiant, ac anghydraddoldebau a geir yn yr HIA helpu i lywio camau gweithredu traws-sector ar draws camau'r cylch cynllunio addasu (Llywodraeth Cymru, 2013) (Ffigur 3 isod). Er enghraifft:

- **Dechrau:** gall y dystiolaeth a'r canfyddiadau yn yr HIA gefnogi fframio negeseuon allweddol ar newid hinsawdd a'r cwmpas ar gyfer canlyniadau ac ymyriadau cynllunio addasu.
- **Ymchwilio:** gall y sylfaen dystiolaeth yn yr HIA lywio ymchwiliad i effeithiau perthnasol allweddol newid hinsawdd ar bobl, lleoedd a sefydliadau ochr yn ochr ag arbenigedd a mewnwelediadau lleol a sectoraidd.
- **Cynllunio:** gall yr HIA gefnogi dethol a blaenoriaethu effeithiau i'w hystyried wrth gynllunio addasiadau.
- **Monitro a gwerthuso:** gellir defnyddio'r HIA i nodi dangosyddion i fonitro effeithiau newid hinsawdd a chanlyniadau camau gweithredu ac ymyriadau ymaddasol.

Gallai enghreifftiau o gymhwyso fod fel a ganlyn:

- Asesiadau risg hinsawdd lleol seiliedig ar le
- Cynllunio addasu ar gyfer gwasanaethau neu leoliadau penodol ee ysgolion, gweithleoedd, gwasanaethau sy'n gweithio gydag oedolin hŷn
- Strategaethau iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau iechyd
- addasu hinsawdd ac asesiadau bregusrwydd
- Asesiadau a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol

# Maes gweithredu 2:
# **Cymhwyso'r sylfaen dystiolaeth ar fesurau addasu a lliniaru effeithiol a gwerthuso effeithiau**

- Buddsoddi mewn camau gweithredu wedi'u harwain gan wyliadwriaeth iechyd y cyhoedd cryfach, cadarn a rheolaidd a gwybodaeth am effeithiau iechyd, llesiant a thegwch newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol yng Nghymru.

- Cymhwyso camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle nodir hynny ar ymyriadau i gefnogi addasu i newid hinsawdd a chyd-fuddiannau i iechyd sy'n deillio o liniaru newid hinsawdd (am ddolenni i enghreifftiau gweler Atodiadau D ac E).

# Maes gweithredu 3:
# **Gwella camau gweithredu ar liniaru ac addasu drwy fuddsoddiad hirdymor mewn meithrin gallu a chamau ataliol**

- Gwella buddsoddiad mewn ymatebion tywydd eithafol – gan gydnabod y bydd y rhain yn dod yn amlach ac yn fwy difrifol, gan gynnwys ymyriadau ymddygiadol iechyd a llesiant a chanllawiau seiliedig ar leoliadau ar dywydd poeth. Sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion grwpiau allweddol o'r boblogaeth sy'n agored i niwed, er enghraifft, oedolion hŷn, plant ifanc, pobl ddigartref.

- Gwella cynlluniau brys a chynlluniau wrth gefn ar gyfer tywydd eithafol a llifogydd, er mwyn atal a lliniaru effeithiau iechyd a llesiant byrdymor, tymor canolig a hirdymor digwyddiadau.

- Meithrin capasiti a gallu ymaddasol ar draws y GIG, Cyrff Cyhoeddus a sectorau eraill a sicrhau bod iechyd, llesiant a thegwch yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau addasu traws-sector.

- Meithrin gallu gweithlu iechyd y cyhoedd arbenigol ac ehangach yn awr ac yn y dyfodol i gwrdd â heriau'r argyfwng hinsawdd er enghraifft, arweinyddiaeth ar newid hinsawdd, ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu risg, dadansoddi a dehongli data integredig ar newid hinsawdd ac iechyd a llesiant y boblogaeth, gweithredu a gwerthuso ymyriadau a strategaethau addasu. Cydnabyddir hyn yn Strategaeth Newid Hinsawdd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd (Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2023).

# Maes gweithredu 3:
## Gwella camau gweithredu ar liniaru ac addasu drwy fuddsoddiad hirdymor mewn meithrin gallu a chamau ataliol

- Cynnwys newid hinsawdd yn rolau swyddi allweddol y sector cyhoeddus (gan gynnwys y GIG) ac ymgynghori â'r gweithlu ar y sgiliau sydd eu hangen i allu ystyried ac addasu ymddygiad i hyn.
- Gwella cymorth, datblygu arweinyddiaeth a rhwydweithiau dysgu cymheiriaid ar gyfer staff sy'n gweithio ar yr agenda newid hinsawdd, gan gydnabod cynnwys meddyliol ac emosiynol y gwaith.
- Datblygu offer ac adnoddau newid hinsawdd ac addasu iechyd, gydag ymyriadau addasu a argymhellir ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y gellir eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau i ystyried sut y gellir gwneud y mwyaf o iechyd a llesiant yn gadarnhaol a lliniaru effaith negyddol anfwriadol mewn cynlluniau addasu a chynlluniau cysylltiedig.
- Defnyddio dulliau fel HIA a MWIA i ddeall yn well effeithiau polisi a chynlluniau addasu i'r newid hinsawdd ac ymatebion cynllunio at argyfwng ar iechyd a llesiant a grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed.

# Maes gweithredu 4:
# **Gwella atal a chynnwys y cyhoedd trwy gyfathrebu ac addysg**

- Gellir cefnogi ymdrechion i annog gweithredu i liniaru ac addasu i newid hinsawdd trwy gymhwyso gwyddor ymddygiad a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfathrebu risg. Mae gwerthuso effaith negeseuon cyhoeddus hefyd yn hanfodol.

- Mae angen gwybodaeth glir y gellir ymddiried ynddi i'r cyhoedd a deunyddiau addysgu o ansawdd uchel nad ydynt yn rhagfarnllyd ar gyfer ysgolion ar newid hinsawdd, sy'n mynd i'r afael â phryderon y cyhoedd ac yn cefnogi gweithredu a arweinir gan ddinasyddion a'r gymuned ar newid hinsawdd.

- Mae iaith yn bwysig a gall effeithio ar sut mae pobl yn teimlo am newid hinsawdd, a'u tebygolrwydd o weithredu. Dylai cyfathrebiadau cyhoeddus osgoi creu ymdeimlad o ddiffyg grym ac yn lle hynny nodi'r camau effeithiol y gall pobl eu cymryd gyda'i gilydd. Mae'n bwysig rhoi ymdeimlad o obaith ac optimistiaeth trwy negeseuon cadarnhaol ond realistig ac mae cyfle i annog unigolion i gymryd rheolaeth o'u dyfodol a siapio eu hymddygiad i helpu i liniaru newid hinsawdd.

- Mae grymuso pob dinesydd, yn enwedig pobl ifanc, i gymryd rhan mewn gweithredu ar yr hinsawdd yn ganolog i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd "Gweithredu ar Grymuso Hinsawdd", a chytunodd Cyngres y Pleidiau (COP) 27 ar gynllun gweithredu pedair blynedd i rymuso holl aelodau'r gymdeithas i gymryd rhan mewn gweithredu hinsawdd (UNFCCC, 2022). Mae gan randdeiliaid yng Nghymru y cyfle i gydweithio i gyflawni'r weledigaeth hon.

# Maes gweithredu 5:
# **Gwella cyfranogiad y cyhoedd a gwydnwch cymunedol**

- Gwella rheolaeth, gwydnwch a chyfranogiad trwy brosesau gwneud penderfyniadau democrataidd, llywodraethu, ac ymgysylltu cymunedol mewn polisi a chynllunio newid hinsawdd, er enghraifft, polisi llifogydd ac erydu arfordirol.
- Gwella gallu a chapasiti ar gyfer arferion ymgysylltu cymunedol effeithiol a chyfathrebu risg wrth gynllunio addasiadau, er enghraifft, rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Creu buddsoddiad cynaliadwy mewn gwydnwch cymunedol, gweithredu a arweinir gan y gymuned ar newid hinsawdd a strwythurau cymorth cymdeithasol, er enghraifft, trwy rwydweithiau cyd-gymorth, rolau cymunedol mewn ymatebion brys, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, trafnidiaeth gymunedol, gwelliannau amgylcheddol, a chamau addasu a lliniaru eraill a yrrir yn lleol.
- Defnyddio HIA a MWIA fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau.

# Maes gweithredu 6: **Gwella integreiddio a chydweithio**

- Cryfhau'r broses o integreiddio effeithiau iechyd, llesiant a thegwch i'r gwaith o ddatblygu polisi addasu a lliniaru newid hinsawdd, i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer iechyd a llesiant, ac atal neu liniaru canlyniadau anfwriadol, er enghraifft drwy gymhwyso HIA.

- Er bod cynlluniau ar gyfer addasu corfforaethol a pharhad busnes ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig, mae angen mecanweithiau atebolrwydd a llywodraethu clir er mwyn cynllunio ar gyfer effeithiau trawsbynciol a chronnus ar sail lle ac ar iechyd y boblogaeth yn sgil newid hinsawdd sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau sefydliadol.

- Mae deall y cyd-destun lleol yn hanfodol wrth ddatblygu strategaethau ac ymyriadau addasu (Kovats a Brisley, 2021). Gall asesiadau risg hinsawdd integredig sy'n seiliedig ar le, wedi'u hategu gan strwythur llywodraethu traws-sefydliadol lleol gefnogi'r gwaith o gyflawni addasu yn seiliedig ar le a phoblogaeth leol.

- Mae angen i fusnesau a chyflogwyr gynllunio ar gyfer addasu i effeithiau newid hinsawdd gan gynnwys ar gyfer mwy o wres, llifogydd ac amharu ar seilwaith a allai effeithio ar eu gweithrediadau ac iechyd, llesiant a chynhyrchiant eu gweithlu.

# Maes gweithredu 6: **Gwella integreiddio a chydweithio**

- Dylid ystyried effaith newid hinsawdd ar y cyd â materion mawr eraill yng Nghymru, er enghraifft, pandemig COVID-19, Brexit a'r argyfwng costau byw, a'r effeithiau cronnol a gaiff yr heriau lluosog hyn.
- Mae llawer o synergeddau ar draws meysydd polisi a allai hwyluso iechyd a llesiant, a lliniaru effaith newid hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ffyrdd gwell o weithio'n ddigidol a darparu gwasanaethau, dulliau trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir gwell.
- Mae newid hinsawdd yn fater o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol ac mae'n mynd y tu hwnt i bob ffin ac awdurdodaeth. Mae angen i randdeiliaid weithio ar y cyd ar draws y pedair gwlad ac yn rhyngwladol.

# Maes gweithredu 7:
# **Buddsoddi mewn cyd-fuddiannau i iechyd**

- Sicrhau bod polisïau a buddsoddiadau lliniaru newid hinsawdd a datgarboneiddio ar draws sectorau yn sicrhau'r cyd-fuddiannau gorau i iechyd ac atal anghydraddoldebau cynyddol ac effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant – gall cymhwyso HIA gefnogi hyn.
- Buddsoddi mewn seilwaith sy'n gallu gwrthsefyll hinsawdd mewn cynllunio gofodol, er enghraifft, i liniaru effeithiau tywydd poeth, galluogi cynaliadwyedd gweithgarwch corfforol awyr agored, chwaraeon a chwarae egnïol.
- Buddsoddi mewn datblygu sgiliau ymarferol a mecanweithiau rhannu sgiliau ar gyfer byw'n gynaliadwy, er enghraifft, atgyweirio, tyfu bwyd yn lleol.
- Buddsoddi mewn strategaethau i gynyddu gweithgarwch corfforol ac iechyd meddyliol, er enghraifft, trwy ragnodi cymdeithasol a gwirfoddoli, gan ystyried y potensial ar gyfer gwell cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored a theithio llesol oherwydd newid hinsawdd.

# Maes gweithredu 8:
# **Ymchwil bellach**

- Dylid defnyddio'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad HIA hwn ac yn yr Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru a'r DU (Netherwood, 2021; Kovats a Brisley, 2021) i lywio'r gwaith o weithredu a gwerthuso polisi addasu ac ymyriadau i ddiogelu iechyd y boblogaeth.
- Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio canfyddiadau'r HIA, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu agenda ymchwil ar newid hinsawdd ac iechyd er mwyn blaenoriaethu buddsoddiad mewn gweithgarwch ymchwil a chamau gweithredu sy'n sicrhau'r effeithiau mwyaf posibl ar iechyd y boblogaeth.
- Mae angen ymchwilio ymhellach i nodi meysydd o newid a chynnydd posibl yn y galw am wasanaethau iechyd yn sgil newid hinsawdd, er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddyliol, iechyd anadlol, gofal sylfaenol a gofal heb ei gynllunio.
- Ymchwilio a buddsoddi pellach yn natblygiad gallu, sgiliau, gwybodaeth ac offer ar gyfer cymhwyso a dehongli data gofodol iechyd a demograffig integredig i hysbysu cynllunio addasu aml-sector sy'n ystyried dimensiynau lluosog o fregusrwydd, iechyd ac effeithiau hinsawdd.
- Mae gwyddor hinsawdd, newid hinsawdd a'r sylfaen dystiolaeth ar effeithiau iechyd yn datblygu'n gyflym. Yn benodol, gyda mwy o fuddsoddiad mewn gwyliadwriaeth ac ymchwil ar effeithiau iechyd a arsylwyd yng Nghymru, bydd y sylfaen dystiolaeth ar effeithiau iechyd a llesiant newid hinsawdd yn esblygu'n gyson. Felly, bydd yn bwysig bod yr HIA hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru yn y dyfodol er mwyn parhau i fod yn arf defnyddiol i gefnogi penderfyniadau.

# Maes gweithredu 8:
# **Ymchwil bellach**

- Mae'r HIA wedi nodi bylchau sylweddol mewn data a thystiolaeth ar effeithiau iechyd yng Nghymru o wres eithafol, sychder a chlefydau a gludir gan fector a goblygiadau ar gyfer iechyd meddyliol, trais, camddefnyddio alcohol a sylweddau a pherthnasoedd teuluol a rhwng cenedlaethau yng Nghymru. Mae angen gwerthuso mesurau addasu ymhellach hefyd.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales